Ffeðerasiwn Amgueddfeydd Cymru | Museums Federation Cymru

YMag






Yn y rhifyn hwn o'r Mag, rydym yn edrych ar y gwaith cyffrous sy'n cael ei wneud ar draws amgueddfeydd Cymru, gan gynnwys ychwanegiadau newydd at y casgliad yn CofGâr, Caergybi, ac yn Oriel Môn, gwella dehongli yn y Ganolfan Eifftaidd yn Abertawe, a chyfleoedd hyfforddi i staff yr amgueddfeydd ac aelodau'r Ffederasiwn.
Mae'r prosiectau hyn wedi cael eu nodi drwy'r grantiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac a weinyddir gan Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru megis y Cynllun Grantiau Bach, y Grant Caffael, a'r grant Datblygiad Proffesiynol a Chynhadledd. Cewch fwy o wybodaeth yn y rhifyn hwn: https://museumsfederation.cymru/cy/grantiau/

Mae llawer i'w gynnig yng Nghymru a hyd yn oed mwy i'w ddysgu oddi wrth ein gilydd!

Beth sy'n Newyddd

- CofGâr: Caffael tri lithograff o Ystafell Dylan Thomas gan Ceri Richards
- Amgueddfa Forwrol Caergybi: Prynu mewn ocsiwn ar y gloch bres o fferi Caergybi TSS Cambria (1920-1948)
- Oriel Môn: Caffael Casgliad o Wrthrychau Offrymu yn Llanfair Mathafarn Eithaf
- Amgueddfa Sir Gaerfyrddin: Casgliad o ddarnau arian Rhufeinig o Langynderyn, Sir Gaerfyrddin
- Gwella Dehongli yn Oriel y Tŷ Bywyd yn y Ganolfan Eifftaidd
- Cynhadledd GEM 2026 ym Mharc Bletchley
- Sesiwn Datblygu Proffesiynol gyda staff Amgueddfa Cymru ac Amgueddfeydd Lerpwl ac Amgueddfa Caethwasiaeth Lerpwl yn ystyried materion sensitif
- Cynhadleddau au ddiwrnod wedi ei leoli yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Cyfle hyfforddi: Casgliad y Werin Cymru 'Gwneud y gorau o'ch casgliadau, yn yr amser sydd gennych'

CofGâr: Caffael tri lithograff o Ystafell Dylan Thomas gan Ceri Richards

Llwyddodd CofGâr, Gwasanaeth Amgueddfeydd a Chelf Sir Gaerfyrddin, i gaffael tri lithograff gwreiddiol o'r Ystafell Dylan Thomas gan yr artist Cymreig rhyngwladol enwog Ceri Richards (1903-1971), gyda chymorth Cynllun Grantiau Caffael Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru. Roedd y caffael yn cynnwys 'The Force That Through the Green Fuse Drives the Flower', 'The Crooked Rose' ac And Death Shall Have No Dominion'. Prynwyd y gweithiau hyn o Oriel Goldmark ac maent yn ychwanegu'n sylweddol at gasgliad presennol yr amgueddfa o'r Ystafell.

Cyn y caffael, roedd gan yr amgueddfa saith o'r deuddeg lithograff sy'n ffurfio'r set. Mae prynu'r tri gwaith hyn yn cynyddu'r daliad i ddeg o'r deuddeg print, gan gynrychioli cam arwyddocaol tuag at greu casgliad cyhoeddus cynhwysfawr o'r gyfres bwysig hon.

Mae'r caffael yn ategu blaenoriaethau'r amgueddfa o ran casglu celf, llenyddiaeth, a gwaddol diwylliannol Dylan Thomas yng Nghymru. Mae'n arbennig o berthnasol i Sir Gaerfyrddin oherwydd cysylltiad agos Thomas â Lacharn, a chyfrifoldeb y gwasanaeth amgueddfeydd am stiwardiaeth a dehongli Cartref Dylan Thomas.

Mae'r prosiect wedi cryfhau gallu'r amgueddfa i ddehongli'r berthynas greadigol rhwng dau o fawrion diwylliannol pwysicaf Cymru yn yr ugeinfed ganrif. Mae'r lithograffau yn gyfle newydd i gynnal arddangosfeydd, gweithgareddau dysgu a dehongli, a helpu i gyflwyno'r gyfres fel ymateb artistig cydlynol i farddoniaeth Dylan Thomas.

Hefyd mae'r caffael yn ategu uchelgais tymor hwy CofGâr i ddatblygu Cartref Dylan Thomas fel canolfan i'r celfyddydau gweledol, llenyddiaeth a threftadaeth. Drwy sicrhau'r gweithiau hyn o fewn casgliad cyhoeddus, mae'r amgueddfa yn sicrhau eu bod yn parhau i fod ar gael i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol eu mwynhau, eu hastudio a'u gwerthfawrogi.



Tri lithograff o Ystafell Dylan Thomas gan Ceri Richards. Cydnabyddiaeth delwedd: Matt Walker.

Mae'r prosiect weâi llwyâào i gyflawni'r amcanion a amlinellwyâ yn y cais ârwy:

- Sicrhau caffael tri gwaith arwyâàocaol gan Ceri Richarâs i gryfhau'r casgliâ presennol o arwyâàocâà ceneâlaethol.
- Cynyâàu nifer y lithograffau a geâwir o 'Ystafell Dylan Thomas' o saith i âàeg, gan weithio tuag at set gyflawn o âàeuâàeg.
- Ategu âehongli celf, llenyâàiaeth a gwaâàol Dylan Thomas yng Nghymru.
- Cynyâàu'r cyfleoeâà i gynnal arâàangosfeyâà, gwaith ymchwil, âehongli a gweithio mewn partneriaeth.

Mae'r caffael yn uniongyrchol yn ategu Blaenoriaeth 3 o Flaenoriaethau Diwylliant Llywoâraeth Cymru ârwy âàangos âull strategol o gasglu a chyânaboâ arwyâàocâà o fewn casgliaâau'r amgueâàfeyâà. Mae'r prosiect yn cynrychioli targeâu gwaith i wella casgliâ presennol o arwyâàocâà profeâig yn hytrach na chaffael gweithiau unigol.

Mae'r lithograffau yn cryfhau âaliaâau'r amgueâàfa o waith celf a llenyâàiaeth Cymru ac yn cynnal y gwaith caâwraeth hirâymor ar weithiau o bwys âiwylliannol o fewn casgliâ cyhoeâàus. Maent yn âystiolaeth o'r berthynas greaâigol rhwng Ceri Richarâs a Dylan Thomas, âau o fawrion hanes âiwylliannol Cymru, ac yn cynnig mwy o gyfleoeâà ymchwil i gelf foâern, argraffu a âehongli llenyâàiaeth Cymru.

Hefyâ mae'r caffael o fuâà i gymuneâau yn Sir Gaerfyrâàin ac ar hyâ a lleâ Cymru ârwy wella myneâiaâ y cyhoeâà at weithiau celf sy'n archwilio hunaniaeth a threftaâaeth âàiwylliannol Cymru. Mae'n ategu uchelgais yr amgueâàfa i âàatblygu Cartref Dylan Thomas yn ganolfan ar gyfer y celfyâàyâau gweleâol ac ymgysylltu âiwylliannol, gan greu cyfleoeâà newyâà i gynulleiâfaoeâà gysylltu â chreaâigrwyâà Cymru ârwy lenyâàiaeth a chelf.



Un o'r tair lithograff o Ystafell Dylan Thomas gan Ceri Richards. Cydnabyddiaeth delwedd: Matt Walker.

Amgueddfa Forwrol Caergybi: Prynu mewn ocsiwn ar y gloch bres o fferi Caergybi TSS Cambria (1920-1948)

Prif ddiben yr amgueddfa yw adrodd hanes morwrol Caergybi a datblygiad y prif gysylltiad morwrol dros y ddwy ganrif ddiwethaf rhwng y DU ac Iwerddon. Yn yr amgueddfa mae casgliad sylweddol o fodelau llongau ac arteffactau sy'n helpu i ddarlunio ac egluro'r stori hon. Ein dymuniad oedd caffael cloch y llong TSS Cambria (1920-1948). Adeiladwyd y llong hon yn William Denny and Brothers o Dumbarton, addechreuodd redeg gwasanaeth yng Nghaergybi yn 1921. Y criw oedd morwyr lleol yn bennaf, a bu'n rhedeg y siwrnai rhwng Caergybi a Dún Laoghaire am bron i 30 mlynedd. Yn 1949 cael ei thaflu ar y domen sgrap fu tynged y llong. Cafodd y gloch ei harwerthu mewn ocsiwn ar 23/6/2026 yng Nghaer-wysg.

Roedd y Grant Caffael yn gyfle i ni gynnig yn llwyddiannus am y gloch am gost o fewn amcangyfrif yr ocsiwn. Yn gynharach eleni, cafodd casgliad yr amgueddfa ei gydnabod am ei arwyddocâd a'i statws arbennig, ac o'r herwydd mae wedi'i argymell am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru o dan y Cynllun CYDNABOD. Mae'r casgliad yn cynnwys nifer o glychau llongau o longau fferi a chargo a groesodd Môr Iwerddon yn rheolaidd am genedlaethau lawer. Mae clychau llongau wedi cael eu defnyddio ers amser maith at ddibenion ymarferol, seremoniol a diogelwch.
Yn draddodiadol, wedi'u hysgythru ag enw llong, a drwy oroesi, maent yn clustnodi, yn cynrychioli ac yn ennyn atgofion o longau sydd wedi hen ddod i ddiwedd eu hoes. Mae'r gloch o'r TSS Cambria yn ychwanegiad gwerthfawr i gasgliad yr amgueddfa, a bydd yn gymorth i adrodd stori barhaus treftadaeth forwrol Caergybi.

Yn yr amgueddfa mae clychau llongau bob amser wedi ennyn diddordeb ymwelwyr iau, a chaniateir i rai o'r clychau gael eu canu fel y gellir parhau i glywed eu sain unigryw!

Mae'r prosiect wedi cyflawni amcanion SMART drwy fod yn berthnasol i nodau a dibenion yr amgueddfa, ac mae'n ategol i'n casgliad. Hefyd mae'r prosiect wedi cyflawni amcanion hirdymor Polisi Datblygu Casgliadau'r Amgueddfa drwy gael arteffactau sy'n helpu i ehangu stori treftadaeth forwrol Caergybi.

Roedd y grant wedi helpu'r amgueddfa i gyflawni'r 'Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant' gan ei fod yn caniatáu caffael arteffact o bwys sylweddol i'r casgliad presennol ac i hanes morwrol y porthladd. Roedd yn ddolen gyswllt yn y dilyniant o longau oedd yn rhedeg gwasanaeth ar draws y môr o Gaergybi i Iwerddon oedd â'r un enw. Roedd y dilyniant yn rhedeg o 1897 i 1976 ac yn cynnwys tair llong.



Y gloch bres o fferi Caergybi TSS Cambria.Cydnabyddiaeth delwedd: Amgueddfa Forwrol Caergybi.

Oriel Môn: Caffael Casgliad o Wrthrychau Offrymu yn Llanfair Mathafarn Eithaf

Mae'r caffael yn cyfrannu at ein hymrwymiad i gryfhau casgliad archaeoleg Oriel Môn drwy gaffael gwrthrychau prin, anarferol ac o arwyddocâd lleol.

Mae'r casgliad o wrthrychau offrymu yn Llanfair Mathafarn Eithaf yn gasgliad o arwyddocâd cenedlaethol, sy'n dystiolaeth ddiddorol o weithgarwch defodol sy'n gysylltiedig â ffynnon sanctaidd o'r Oes Haearn hyd at y cyfnod Rhufeinig-Brydeinig. Yn arbennig o nodedig yw'r pen hwrdd efydd, a ddisgrifiwyd yn ystod y broses Trysor fel y gwrthrych pwysicaf o fewn y grŵp.

Mae'r caffael hefyd wedi tynnu sylw at werth gweithio mewn partneriaeth rhwng Oriel Môn, Amgueddfa Cymru, PAS Cymru/ Henebion a darganfyddwyr lleol o ran diogelu a dehongli treftadaeth archaeolegol Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r caffael hwn, a ariannwyd gan grant, yn ategu Blaenoriaeth Diwylliant 3 Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol, gan helpu i sicrhau bod treftadaeth o arwyddocâd cenedlaethol yn cael ei chydnabod, ei chasglu, yn derbyn gofal, a'i gwneud yn hygyrch drwy wasanaeth amgueddfeydd cynaliadwy ac achrededig er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae'r casgliad bellach wedi'i gaffael, ei gadw a'i ychwanegu at gasgliad archaeoleg Oriel Môn. Mae'n elfen allweddol o Trysor, sef arddangosfa o bwys sy'n arddangos rhai o gaffaeliadau diweddar mwyaf arwyddocaol yr amgueddfa ochr yn ochr â 'thrysorau' eraill o'n casgliad. Mae'r pen hwrdd efydd wedi dod yn un o wrthrychau unigryw yr arddangosfa ac mae wedi cael lle amlwg mewn deunydd marchnata a hyrwyddo, gan ddenu cryn ddiddordeb gan ymwelwyr oherwydd ei brinder a'i olwg drawiadol.



Wrthrychau Offrymu yn Llanfair Mathafarn Eithaf Cydnabyddiaeth delwedd: Amgueddfa Cymru / Oriel Môn.

Mae'r casgliad hefyd wedi cael sylw yng nghyhoeddiad dwyieithog newydd Oriel Môn, Trysorau Ynys Môn, gan ymestyn y cyfle i weld y casgliad y tu hwnt i'r oriel, a chreu adnoddau addysgol parhaol.

Mae'r caffael hefyd yn helpu i greu cyfleoedd ymchwil newydd. O ddidderbeb arbennig ar hyn o bryd yw'r ingot copr mawr ar ffurf cacen. Mae dwy enghraifft arall wedi dod i ofal Oriel Môn yn ddiweddar, un drwy rodd ac un ar fenthyg.

Gall dadansoddiad gwyddonol uwch, a gyflawnir yn ddiweddarach eleni, helpu i benderfynu a yw'r ingotau hyn yn rhannu ffynhonnell gyffredin ac yn dystiolaeth newydd am gynhyrchu a masnachu metelau yn ystod cyfnod y Rhufeiniaid ar Ynys Môn.

Mae'r caffael eisoes wedi arwain at amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol. Mae'r gwrthrychau wedi'u cadw, eu hymgorffori yn arddangosfa Trysor ac wedi'u cynnwys yng nghyhoeddiad dwyieithog yr amgueddfa, Trysorau Ynys Môn. Mae'r pen hwrdd efydd wedi dod yn un o wrthrychau mwyaf adnabyddus yr arddangosfa ac yn ganolbwynt ar gyfer hyrwyddo ac ymgysylltu ag ymwelwyr.

Mae'r caffael yn parhau i greu cwestiynau ymchwil newydd. Mae'r ingot cacen copr a'r enghreifftiau cymharol a glustnodwyd yn ddiweddar, yn cynnig potensial sylweddol i wella dealltwriaeth o'r gweithgarwch, y gwaith metel, a'r datblygu adnoddau yng nghyfnod y Rhufeiniaid ar Ynys Môn. Mae gwrthrychau eraill yn y casgliad hefyd i gael eu dadansoddi fel rhan o fenter REMADE (Roman and Early Medieval Aloys Defined) dan arweiniad Dr Peter Bray, Prifysgol Reading.



Wrthrychau Offrymu yn Llanfair Mathafarn Eithaf Cydnabyddiaeth delwedd: Amgueddfa Cymru / Oriel Môn.



Mae'r grant wedi golygu manteision sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i gaffael yn unig, ac yn ategu dysgu, gwaith ymchwil ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

Amgueddfa Sir Gaerfyrddin: Casgliad o ddarnau arian Rhufeinig o Langyndeyrn, Sir Gaerfyrddin

Roedd Amgueddfa Sir Gaerfyrddin wedi llwyddo i gaffael Casgliad o Ddarnau Arian Rhufeinig Llangyndeyrn (Casyn 22.24) gyda chymorth Cynllun Grant Caffael Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru. Mae'r casgliad yn cynnwys 96 denarii arian Rhufeinig a ddarganfuwyd fis Ebrill 2022 yng nghymuned Llangyndeyrn yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r darnau arian yn dyddio o 32 CC i 168 OC, yn amrywio o ddarnau arian Mark Antony i ddarnau arian Marcus Aurelius.

Mae'r caffael wedi cryfhau casgliadau archaeoleg yr amgueddfa yn sylweddol ac yn ategu Polisi Datblygu Casgliadau'r Gwasanaeth yn uniongyrchol, sy'n blaenoriaethu caffael Trysor a Hynafiaethau Cludadwy a ddarganfuwyd yn Sir Gaerfyrddin.
Y casgliad mwyaf o ddarnau arian Rhufeinig sy'n bodoli o Sir Gaerfyrddin yw'r casgliad hwn, ac mae'n gyfle pwysig i wella dealltwriaeth o weithgarwch, masnach a chylchrediad darnau arian y Rhufeiniaid yn y sir. Mae'r caffael yn sicrhau bod y casgliad yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd ar gyfer gwaith ymchwil, addysg a dehongli yn y dyfodol.

Mae'r prosiect o fudd i'r cymunedau lleol drwy ddiogelu darganfyddiad archaeolegol pwysig yn y sir lle cafodd ei ddarganfod. Hefyd mae'r prosiect yn gwella cyfleoedd o ran arddangos, dehongli ac ymgysylltu yn y dyfodol â threftadaeth Rufeinig, maes sydd o ddiddordeb parhaus i'r cyhoedd. Mae'r caffael yn ategu'r casgliadau Rhufeinig presennol, gan gynnwys celc Lacharn, ac yn gyfrwng i ehangu'r gwaith o ddehongli treftadaeth archaeolegol gyfoethog Sir Gaerfyrddin.



Darnau arian Rhufeinig o Langyndeyrn, Sir Gaerfyrddin. Cynnabyddiaeth delwedd: Amgueddfa Cymru / Amgueddfa Sir Gaerfyrddin.

Un wers allweddol a ddysgwyd yw pwysigrwydd parhaus partneriaethau rhwng amgueddfeydd, y Cynllun Hynafiaethau Cludadwy, darganfyddwyr a chyrff ariannu wrth sicrhau bod darganfyddiadau archaeolegol arwyddocaol yn aros mewn casgliadau cyhoeddus er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Amcanion SMART/ CAMPUS

- Caffael y celc o ddarnau arian Rhufeinig a glustnodwyd drwy'r broses Trysor a'i sicrhau ar gyfer perchnogaeth gyhoeddus barhaol.
- Cyflwyno casgliad penodedig.
- Cryfhau casgliadau archaeoleg Rufeinig yr amgueddfa â grŵp o arwyddocâd lleol eithriadol.
- Diogelu darganfyddiad archaeolegol pwysig a sicrhau mynediad hirdymor ar gyfer ymchwil, addysg ac ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Gwella cyfleoedd i gynnal arddangosfeydd a dehongli Sir Gaerfyrddin Rufeinig yn y dyfodol.

Mae'r prosiect yn uniongyrchol wedi diwallu Blaenoriaeth 3 o Flaenoriaethau Diwylliant Llywodraeth Cymru drwy gynnal dull strategol o gydnaboda arwyddocâd a datblygu casgliadau'r amgueddfeydd. Roedd y caffael wedi sicrhau trysor archaeolegol o arwyddocâd lleol a chenedlaethol ar gyfer casgliad cyhoeddus, a sicrhau ei gadwraeth hirdymor.

Mae'r celc yn arbennig o arwyddocaol oherwydd dyma'r celc denarius Rhufeinig mwyaf y gwyddys amdano o Sir Gaerfyrddin ac mae'n cynnwys mathau o ddarnau arian sydd anaml i'w cael mewn celciau o'r ail ganrif. O ganlyniad, mae'n cynnig cyfleoedd ymchwil pwysig ar gylchrediad, cadw a dyddodi darnau arian Rhufeinig.

Mae'r prosiect hefyd yn mynd i'r afael â bylchau yng nghofnod archaeolegol Sir Gaerfyrddin, yn enwedig mewn ardal lle nad oedd llawer o weithgarwch Rhufeinig wedi'i glustnodi o'r blaen. Drwy gaffael y celc, mae'r amgueddfa wedi sicrhau adnoddau gwerthfawr ar gyfer ymchwil, dehongli ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn y dyfodol wrth sicrhau mynediad i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Gwella Dehongli yn Oriel y Tŷ Bywyd yn y Ganolfan Eifftaidd

Llwyddodd y prosiect hwn i wella profiad ymwelwyr yn oriel y Tŷ Bywyd yn y Ganolfan Eifftaidd drwy fynd i'r afael â'r diffyg cydlyniant gweledol a swyddogaethol ag oriel y Tŷ Marwolaeth oedd newydd ei hadnewyddu. Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy'r Adran Ddiwylliant a chymorth Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru, roedd y prosiect wedi cyflawni ei amcan craidd drwy gaffael a gosod 107 o ddeiliaid labeli ymyl silff Absolute o ansawdd uchel, wedi'u torri yn arbennig ar gyfer pob casyn arddangos parhaol.

Mae'r uwchraddio strwythurol hwn wedi moderneiddio gofod yr oriel, gan ganiatáu defnyddio cynnwys wedi'i ddiweddaru, ar sail ymchwil, a chynllun dehongli unedig yn ôl cod lliwiau. O ganlyniad, mae'r amgueddfa wedi llwyddo i greu amgylchedd dysgu trochi, proffesiynol a hygyrch iawn ar gyfer ei 20,000 o ymwelwyr blynyddol, grwpiau ysgol a'r gymuned leol.

Cysondeb Esthetig a Swyddogaethol: Mae gosod y 107 o ddeiliaid label pwrpasol wedi llwyddo i uno'r daith naratif ar draws yr amgueddfa, gan dod ag oriel y Tŷ Bywyd i fyny i'r safonau arddangos a sector uchel a sefydlwyd gan brosiect y Tŷ Marwolaeth.



Casyn yr Aifft a'i Chymdogion (cyn). Cydnabyddiaeth delwedd: Y Ganolfan Eifftaidd.

Adborth Cadarnhaol yn Syth: Mae adborth cynnar gan wirfoddolwyr y Ganolfan Eifftaidd ac aelodau'r cyhoedd wedi bod yn gadarnhaol dros ben, gan ddangos gwerthfawrogiad yn syth bod y cyflwyniad yn fwy eglur a modern.

Aliniad Strategol:
Mae'r prosiect wedi cyflawni blaengynllun yr amgueddfa yn uniongyrchol drwy foderneiddio'r ardaloedd arddangos, gwella hygyrchedd, a diogelu arddangosfeydd addysgol yr amgueddfa i'r dyfodol.

Diwallu'r Blaenoriaethau Cenedlaethol:
Mae'r prosiect wedi bwrw ymlaen â nifer o Flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwylliant (2024–2030), yn enwedig drwy wneud diwylliant yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn amrywiol, a sicrhau bod y sector diwylliant yn amgylchedd rhagorol i wirfoddolwyr.

Y Camau Nesaf:

Gan adeiladu ar lwyddo i osod y 107 o ddeiliaid label ymyl silff Absolute, mae cam nesaf y prosiect yn canolbwyntio ar ddatgloi potensial llawn y codau QR sydd eisoes wedi'u hymgorffori ar bob label. Bydd y codau hyn yn cysylltu ymwelwyr yn uniongyrchol yn ôl i gatalog ar-lein y Ganolfan Eifftaidd, gan sefydlu pont ddi-dor rhwng yr oriel ei hun a'n hadnoddau digidol. I ategu'r integreiddio hwn, bydd y cofnodion digidol ar-lein yn cael eu diweddaru yn systematig ar gyfer tua 1,000 o wrthrychau sydd ar ddangos yn gyhoeddus ar hyn o bryd. Ar ben hynny, bydd menter sganio 3D wedi'i thargedu yn cael ei lansio ar gyfer arteffactau cymwys, gan fewnosod modelau digidol rhyngweithiol yn uniongyrchol yn eu proffiliau catalog priodol. Drwy uno'r uwchraddo ffisegol hyn â mynediad digidol estynedig, bydd y casgliad a arddangosir yn gyhoeddus yn dod yn fwy hygyrch nag erioed o'r blaen. Yn olaf, bydd boddhad ymwelwyr ac ymgysylltiad digidol yn cael eu monitro'n ffurfiol dros y chwe mis nesaf drwy arolygon ac adborth grwpiau ysgol i wirio'r cynnydd targedig o 20% yn eglurder ac ansawdd y dehongli.

Mae gweithredu'r prosiect hwn wedi amlygu'r effaith ddofn y mae seilwaith modern o ansawdd uchel yn ei gael ar drawsnewid dehongli treftadaeth. Drwy ganolbwyntio ar ddeiliaid labeli ymyl silff Absolute wedi'u torri'n arbennig, gwelwyd y gall hyd yn oed gwelliannau ffisegol bach wella hygyrchedd yn gyffredinol a naws proffesiynol oriel yn sylweddol.

Diàdorol iawn oedà gwelà sut yr oedà alinio estheteg y àyluniad â chynllun lliw-goàio oriel y Tŷ Marwolaeth wedi creu taith naratif àdi-dor ac unedig yn syth i'n hymwelwyr.

Hefyà roedà y prosiect hwn wedi cyflwyno fforàà effeithiol iawn o weithio àrwy integreiàdio cynnwys ar sail ymchwil â chymhorthion gweledol modern, safonol. Pontioà y àull hwn y bwlch rhwng crefftwaith hanesyàdol cymhleth a àulliau cyfoes i'r cyhoedà ymgysylltu.
Ar ben hynny, roedà cynnwys gwirfoàdolwyr y Ganolfan Eifftaidà yn gynnar yn y cyfnoà ôl-osoà wedi rhoi mewnwelediad amhrisiadwy. Gwelwyà boà cynllun gwell nià yn unig yn gwella profiad yr ymwelyàà onà hefyà yn hybu morâl a hyder gwirfoàdolwyr wrth lywio'r oriel. Yn y pen àraw, mae sefyàlu cysondeb gweledol ar àraws mannau aràdangos ar wahân yn hanfodol i greu amgylcheàà adàysgol hygyrch o'r radà flaenaf sy'n boàloni safonau'r sector amgueàdfeyàà modern.



Casyn yr Aifft a'i Chymàogion (ar ôl). Cyànabyàdiaeth àelweà: Y Ganolfan Eifftaidà.

Cynhadleda GEM 2026 ym Mharc Bletchley

Galluogoda y grant i mi fynychu Cynhadleda GEM (Grŵp Addysg mewn Amgueddfeydd) ym Mharc Bletchley. Thema gyffredinol y gynhadleda oeda "Dysgu Digidol?" ac roeda yn cynnwys amrywiaeth o siaradwyr gwadd, daduleuon, sesiynau Holi ac Ateb a gweithdai. Hefyd roeda y gynhadleda yn gyfle gwych i rwydweithio ag ystod eang o weithwyr proffesiynol Treftadaeth o sefydliadau eraill ar hyd a lled Prydain, ac i rannu arfer da a syniadau.

Fel y nodwyd eisoes, roeda y gynhadleda yn canolbwyntio ar dechnoleg ddigidol yn y sector treftadaeth. Cyflwynwyd gwybodaeth i'r cynrychiolwyr am y defnydd a wneir o dechnoleg mewn amrywiaeth o leoliadau, ac am effeithiolrwydd y dechnoleg. Yn rhannol, ceisiwyd chwalu rhai o'r mythau sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial, a chynyddu ymwybyddiaeth o'r defnydd o AI yn ogystal â'n hatgoffa o rai o'r peryglon.
Dyma rai o'r prif siaradwyr:

- Greg Jenner - yr hanesydd cyhoeddus, awdur a darlledwr enwog.
- Alice Loxton - Hanesydd, awdur, cyflwynydd a phodledwr ifanc.
- Dr Eve Poole OBE - Arbenigwr ar arweinyddiaeth AI ac awdur.
- Louise Rutledge - Rheolwr Profiad Digidol, y Gronfa Gelf.

Ers dychwelyd i'r gwaith ar ôl y gynhadleda, rwyf eisoes wedi dechrau edrych ar ein harferion yn y Ganolfan Eifftaidd o ran technoleg a'r hyn y gallwn ei ddatblygu. Mae gennym ofod trochi newydd yn yr amgueddfa sy'n cynnwys elfennau amlsynhwyraidd megis delweddau ar y waliau, arogleuon yn dod o'r nenfwd, a synau sy'n ategu popeth yn y gofod. Rwy'n credu bod angen i ni efallai fanteisio ar hyn yn fwy a rhyddhau rhai clipiau ar y cyfryngau cymdeithasol i ddenu mwy o ymwelwyr. Hefyd rwy'n ystyried ysgrifennu papur a/neu gyflwyniad i eraill am y dechnoleg hon, a'r modd y mae wedi effeithio ar ein hamgueddfa a'r hyn a gynigir i'r cyhoedd pan fyddant yn ymweld.

Hefyd, rwy'n credu bod angen i mi ddysgu mwy am AI a'i botensial i'r amgueddfa gan nad oes gennyf unrhyw brofiad o'r deallusrwydd artiffisial ar hyn o bryd. At ei gilydd, roeda y gynhadleda yn gymysgedd ardderchog o gyflwyniadau, trafodaethau a gweithdai am dechnoleg ddigidol, ochr yn ochr â llawer o enghreifftiau o arfer da o amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth eraill ar hyd a led y DU. Mynychais un gweithdy, er enghraifft, a gyflwynodd yr ap 'Time Odyssey'. Roedd hwn yn edrych yn adnodd rhyngweithiol estynedig gwych i blant ei ddefnyddio wrth ymweld ag amgueddfeydd, ac roedd hyd yn oed yn cynnwys rhithffurf Eifftaidd hynafol yn chwilio am ddarnau allai gwblhau amwled hudolus. Cefais gyfle i roi cynnig ar ddefnyddio'r ap yn ystod y gweithdy, a chlywed gwraig o Heritage Doncaster yn sôn am ddefnyddio'r ap yn ei gweithle. Disgrifiodd pa mor effeithiol oedd yr ap yn ei hamgueddfa, a bod i'r ap nifer o bosibiliadau. Dyma un enghraifft lle gallwn gael profiad o offer a syniadau digidol allai weithio'n wych yn y Ganolfan Eifftaidd.

Enghraifft wahanol a welais oedd defnyddio efelychu hedfan fel offer. Mae cwmni o'r enw Time Machine Designs yn defnyddio'r platfform Microsoft Flight Simulator i alluogi pobl i hedfan dros safleoedd hanesyddol enwog, ac roeddwn yn barnu y byddai hediadau dros y pyramidiau neu'r temlau yn Luxor yn anhygoel. Dim ond dwy enghraifft yw'r rhain o blith nifer sy'n dangos y potensial i ddigidol gael ei archwilio ymhellach yn fy amgueddfa.



Sesiwn Datblygu Proffesiynol gŷda staff Amgueddfa Cymru ac Amgueddfeydd Lerpwl ac Amgueddfa Caethwasiaeth Lerpwl yn ystyried materion sensitif

Cynhaliwyd yr ymweliad datblygu proffesiynol yn Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl ac Amgueddfa Caethwasiaeth Ryngwladol Lerpwl. Diben yr ymweliad oedd archwilio arferion gorau wrth ddehongli hanesion sensitif, adroddd straeon sy'n canolbwyntio ar y gymuned, a dulliau dysgu cynhwysol. Roedd yr ymweliad yn uniongyrchol wedi cefnogi dau faes gwaith allweddol yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa: datblygu adnoddau dysgu a dehongli i gofféu 60 mlynedd ers Trychineb Aberfan, a chyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-Hiliol. Drwy drafodaethau ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol amgueddfeydd sy'n gweithio yn y safleoedd, ac ymweliadau ag arddangosfeydd a mannau dysgu, roedd yr ymweliad yn fewnwelediad gwerthfawr i arferion cyfoes mewn amgueddfeydd.

Sylwadau allweddol

Roeddem wedi cyfarfod â sawl gweithiwr proffesiynol yn Amgueddfeydd Lerpwl, gan gynnwys Pennaeth Dysgu, Pennaeth Cyfranogi, Curadur, Pennaeth Amgueddfeydd Lerpwl, arweinwyr a hwyluswyr dysgu cymunedol a ffurfiol. Roedd pob un o'r cyfarfodydd hyn wedi arwain at drafodaeth amhrisiadwy ynghylch ein hamcanion ar gyfer Aberfan a'r Cynllun Gwrth-Hiliol. Cafwyd sgyrsiau agored a thrafodaethau ar gydweithredu.
Thema allweddol drwy gydol yr ymweliad oedd pwysigrwydd rhoi lleisiau cymunedol a phrofiad byw wrth wraidd y dehongli. Dangosodd y ddwy amgueddfa sut y gellir cyflwyno hanesion anodd mewn modd sy'n onest, yn barchus ac yn hygyrch wrth greu cyfleoedd ar gyfer ôl-ystyried a deialog. Un o'r technegau pwysicaf o ddehongli a ddysgwyd gennym oedd ymgorffori techneg Trychineb Hillsborough mewn arddangosfeydd perthnasol - yn lle curadu achos penodol Hillsbrough sy'n rhedeg y risg o ddod yn ofod all droi yn "gysegrfan".



Benjamin Price, Charlotte Barry, Michelle Lewis a Leisa Williams yn cyrraedd Lerpwl.

Roedd y defnydd o dystiolaeth bersonol, hanesion llafar, a mannau a gynlluniwyd yn ofalus, yn gymorth i gynulleidfaoedd gysylltu â phynciau heriol yn emosiynol. Roedd yr Amgueddfa Caethwasiaeth Ryngwladol (er ei bod ar gau, roeddem yn dal i allu cwrdd ag aelodau perthnasol o'r tîm) wedi tynnu sylw yn benodol at arfer gwrth-hiliol, cyd-gynhyrchu, a dehongli cynhwysol. Rhoddwyd pwyslais cryf ar ddulliau sy'n ystyriol o drawma, adroddd straeon moesegol, a'r angen i amgueddfeydd weithredu fel mannau ar gyfer dysgu, deall a newid cymdeithasol. Mae Amgueddfeydd Lerpwl wedi rhagori yn eu dull o gyflwyno Gwrth-hiliaeth ond hefyd arferion moesegol, sy'n ystyriol o drawma. Mae'n amlwg bod hwn yn ddull o'r brig i lawr, sydd wedi'i ridyllio drwy bob aelod o staff.

Y Camau Nesaf

Mae'r ymweliad wedi rhoi sawl cam ymarferol y gellir eu gwireddu yn awr ar draws ein gwaith. Bydd yr hyn a ddysgir yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r adnoddd dysgu Aberfan 60 yn uniongyrchol, gan sicrhau bod y dehongliad yn sensitif, yn canolbwyntio ar y gymuned ac yn cael ei lywio gan arfer gorau mewn coffáu ac ymgysylltu sy'n ystyriol o drawma.

Mae'r ymweliad hefyd wedi ein galluogi i ystyried ffyrdd y gallwn adrodd stori Aberfan o fewn gofodau'r oriel, mewn modd na fydd yn sbarduno na gwthio ymwelwyr i hanesion anghyfarwydd neu anghyfforddus. Bydd wyn yn adolygu'r dulliau presennol o ddehongli, ac yn clustnodi cyfleoedd i ymgorffori tystiolaeth bersonol, hanes llafar a gweithgareddau dysgu ôl-ystyriol.

Bydd yr ymweliad hefyd yn cyfrannu at ddatblygu gwaith sy'n gysylltiedig â Gwrth-hiliaeth drwy annog mwy o ystyriaeth o gynrychioli, llais a chynhwysiant ar draws arddangosfeydd, rhaglenni dysgu a dehongli casgliadau. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu arddangosfa gydag ysgol leol i arddangos eu treftadaeth, a ategir gan ein casgliad sy'n seilieddig ar Gwrth-hiliaeth.

Bydd y dysgu o'r Amgueddfa Caethwasiaeth Ryngwladol yn cael ei rannu gyda chydweithwyr drwy drafodaethau mewnol a sesiynau ôl-ystyried i gynorthwyo'r gwaith ehangach o ddatblygu'r sefydliad – rydym wrthi'n frwd yn ceisio hyfforddiant i'r holl staff ar arfer sy'n ystyriol o drawma.


Y Gwersi a ddysgwyd

Roedd yr ymweliad wedi atgyfnerthu pa mor bwysig yw ymdrin â hanesion anodd ag empathi, tryloywder ac ymrwymiad cadarn i ymgysylltu â'r gymuned. Un o'r gwersi mwyaf gwerthfawr oedd gweld sut all amgueddfeydd lwyddo i gael cydbwyseddd rhwng ffeithiau hanesyddol a phrofiadau personol, a chreu dehongli sy'n cyflwyno gwybodaeth ac yn adleisio'r emosiynau. Mae Lerpwl yn enghreifftiau blaenllaw o arfer gorau llwyddiannus wrth weithio'n wirioneddol gydweithredol i ddatblygu ardaloedd arddangos neu brosiectau newydd. Dangosodd y defnydd o straeon a thystiolaethau unigol sut y gall cynulleidfaoedd adeiladu cysylltiadau ystyrlon â phynciau cymhleth.

Roedd didordeb arbennig gennyf yn y modd yr oedd y ddwy amgueddfa wedi creu cyfleoedd i ôl-ystyried. Roedd dyluniad yr arddangosfeydd, yr iaith, y dewis o wrthrychau a'r defnydd gofalus o ofod yn sicrhau bod ymwelwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi wrth ymgysylltu â chynnwys heriol. Mae'r dull o integreidio'r straeon i themâu perthnasol yn rhywbeth y bydd wyn yn ei ymgorffori wrth symud ymlaen. Tynnodd hyn sylw at bwysigrwydd dewisiadau dylunio bwriadol mewn dehongli a dysgu.

Roedd yr Amgueddfa Caethwasiaeth Ryngwladol yn cynnig enghreifftiau defnyddiol o'r modd y gellir ymgorffori egwyddorion gwrth-hiliol ledled sefydliad yn hytrach na'u trin fel prosiect annibynnol, gyda dysgu ac ymgysylltu cymunedol yn flaenllaw. Roedd y pwyslais ar gydweithio, cyd-gynhyrchu ac ymhelaethu ar leisiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn dduliau ymarferol y gellir eu haddasu i'n gwaith ein hunain.

Un peth pwysig i'w ddysgu oedd gwerth cynnwys cymunedau wrth lunio dehongliad. Mae'r dull hwn nid yn unig yn gwella dilysrwydd ac ymdirieddaeth ond mae hefyd yn sicrhau bod rhaglenni'r amgueddfeydd yn fwy perthnasol. Mae'r ymweliad wedi ehangu fy nealltwriaeth o arferion cynhwysol sy'n ystyriol o drawma, ac wedi rhoi dulliau newydd ar gyfer datblygu adnoddau dysgu, arddangosfeydd a gweithgareddau ymgysylltu sy'n ymateb i gynulleidfaoedd cyfoes.



Darnau o ddewisiadau curadurol meddylgar mewn casyn arddangos parhaol.


Cynhadleddau ardderchog wedi eu lleoli yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Diben y cynhadleddau oedd I bartneriaid yn y maes treftadaeth i ddathlu llwyddianau. Rhannu arferion dysgu da a cydweithio gyda sefydliadau diwylliannol a threftadaeth sy'n gweithio ledled y wlad i wella iechyd a lles.

Roedd y Diwrnod cyntaf yn canolbwyntio ar waith sy'n cael ei wneud gyda phobl sy'n cael eu heffeithio gan ddementia a pa newidiadau fedrith cael eu gwneud I wella profiad ymweld. Roedd esimaplau o arferion da yn. Roedd gweithgareddau yr ail ddiwrnod yn edrych ar waith ehangach sy'n cwmpasu iechyd a lles gan ddefnyddio esiamplau mae contractwyt allanol a amgueddfeudd Cymru yn defnyddio.

Roedd y dau ddiwrnod yn llawn o gyfranwyr a gwestai gwadd I drafod arferion da yn y sectror treftadol. Rhai o uchafbwyntiau y diwrnod cyntaf oedd araith Dafydd Tudyr swyddog ymgysylltu Llyfrgell Genedlaethol Cymru, roedd ei gyflwyniad yn gryno ond llawn syniadau ymarferol fysa yn medru cael ei defnyddio mewn nifer o sefyllfaoedd. Cafwyd gweithdy trawiadol iawn gyda Tickie Lowe o cwmni Making Sense am Adnoddau fysan cael ei defnyddio gyda mudiadau Cymunedol. Fysa hyn yn brosiect fysa werth Dilyn fel rhan o Adnoddau Cymunedol yn Cyngor Gwynedd. Dylid hefyd drafod pa mor werthfawr oedd y cyfle I rhannu syniadau a profiadau gyda partneriad lleol Cymru.

Roedd y cyfranwyr niferys yn y cynhadleddau wedi cyflwyno ffynhonellau meddwlgarwch, blychau synhwyraidd, a medru cyfuno Ty atgofion Cymru fewn in rhaglen gweithgareddau. Ein cammau neasf fel amgueddfa fydd gweithio yn hyderys hefo mudiadau hygyrch trwyr sir. Rydan eisioes wedi dechrau rhaglennu gweithgareddau hefo mudiad Dementia actif Gwynedd ac yn trafod hefo mudiadau yn de sir Gwynedd I fedru ail gyflwyno y gweithgareddau yma drwy ddefnyddio rhwydwaith llyfrgelloedd y sir fel amn cychwyn.






Cynhadleddau ardderchog wedi eu lleoli yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.
Cydnabyddiaeth delwedd: Rhys Lloyd Jones.

Fel adnodd in staff fydd y trafodaethau a gyflwynwyd yn y cynhadledd yn cael ei defnyddio fel pecynnau gwybodaeth I fyfyrio ai defnyddio fel adnodd ymarferiadau da . O ran creu blychau synhwyriadd cyhoeddus I fudiadau cael defnyddio, bydd trafodaethau a cynllun gweithredu yn cael ei gyflwyno ar y cyd gyda swyddog casgliadau I weld pa creiriau fedran ddefnyddio a be fydd yn addas ir blychau yma a os fydd lleoliadau fel Llyfrgell Pethau trwyr sir yn medru cael ei ddefnyddio I hwyluso mudiadau cael benthyg rhain.

Roedd y brasdoriad o destunau a gyflwynwyd yn a cynhadledd yn agoriad llygaid eang o posibiliadau o fod yn hygyrch o fewn y diwylliant treftadol . Y gwers pwysicaf a ddysgwyd oedd y pwysigrwydd o gydweithio dros y sector i fedru rhannu adnoddau a profiadau eang i siapio rhaglen gweithredol fydd a ddeunydd i ymwelwyr Storiel a i fedru gwneud ein adnoddau mwy hygyrch i greu mynediad hwylus a di drafferth i bobl fydd yn defnyddio'r amgueddfa.

Roedd rhannu ein arferion da gyda partneriaid oedd wedi ymuno o Ceredigion a Powys hefyd o fendith gan fod yn rhoi cyfleon i rhannu adnoddau neu rhaglenni gwreiddiol roeddent wedi cyflwyno a i ysbrydoli a ehangu ein sgôp o fedru cydweithio yn y dyfodol.

Ffeindies y gweithdy Llwyddiant i bawb? Gwneud gwerthuso yn wahanol...: yn hanfodol i fedru cofnodi data gwerthfawr mewn fforddd cryno ac yn fforddd fysa gynulleidfaoedd yn hapus i rhannu . I wneud ei profiad yn rhan o'n stori ni roedd fforddd arloesol o farchnata a rhoi gwyneb cyhoeddus ir hyn roeddem yn cyflwyno a cyflawni. Roedd y cynhadledd yn brofiad bythgofiadwy ac yn hanfodol i frwdfrydedd cymuned treftadol Cymru i weinydd rhaglen a mynegiant ddidrafferth i gymunedau eang Cymru.



Cynhadleddd au ddiwrnod wedi ei leoli yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. Cydnabyddiaeth delwedd: Rhys Lloyd Jones.

Cyfle hyfforàdi: Casgliad y Werin Cymru 'Gwneud y gorau o'ch casgliadau, yn yr amser sydd gennych'

Mae amgueddfeydd ac orielau Cymru yn rheoli oriau agor, ymwelwyr, gwirfoddolwyr, arddangosfeydd a therfynau amser ceisiadau am gyllid, yn aml gydag adnoddau a staff cyfyngedig. Mae digideiddio casgliadau, meithrin cynulleidfa a llywio hawlfraint yn waith gwerthfawr, ond anaml y mae'n hawdd ei ffitio i amserlen sydd eisoes yn llawn, er bod gan bob amgueddfa ac oriel yng Nghymru straeon sy'n haeddu cael eu clywed.

Mae Casgliad y Werin Cymru (CyW) yma i'ch cefnogi. Mae'n bartneriaeth rhwng Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n blatfform dwyieithog, di-dâl sy'n helpu amgueddfeydd ac orielau o bob maint i rannu eu casgliadau â chynulleidfaoedd yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'n bleser gennym gyhoeddi sesiwn gyflwyniadol 90 munud i unrhyw un sy'n gweithio mewn amgueddfeydd ac orielau yng Nghymru, neu'n eu cefnogi. Wedi'i chynllunio ar gyfer y rhai sydd ag ychydig iawn o amser i'w sbario, mae'n cynnig trosolwg cryno o'r cymorth sydd eisoes ar gael, fel nad oes rhaid i chi ddechrau o'r dechrau.

Sut y gall CyW helpu

- Arweiniad arbenigol, am ddim. Cyngor wedi'i deilwra ar ddigideiddio, metadata, hawlfraint a diogelu data, ynghyd â hyfforddiant hanes llafar a benthyciadau offer am ddim.
- Cefnogaeth i geisiadau am gyllid. Llythyrau cefnogi, gan gynnwys ar gyfer ceisiadau i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.
- Casglu moesegol a chynhwysol. Cyngor ymarferol sy'n defnyddio Pecyn Offer Dad-drefedigaethu CyWC.
- Cynulleidfa ehangach. Hyrwyddo drwy sianeli digidol CyWC, gydag adroddiadau ystadegol i ddangos eich cyrhaeddiad a'ch effaith.
- Lle yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r holl gynnwys rydych yn ei uwchlwytho i'w gael gan ysgolion ledled Cymru drwy Hwb, a gallwch gyfrannu adnoddau dwyieithog, wedi'u mapio i Gwricwlwm i Gymru, i'r adran Dysgu.
- Cyfraniad ystyrlon. Gallai'ch deunydd gael ei gynnwys yn yr Archif Cof, sy'n cefnogi gwaith hel atgofion gyda phobl sy'n byw gyda dementia.

Ymunwch â ni ar Microsoft Teams

- **24 Tachwedd, 14:00–15:30: sesiwn Saesneg**
- **25 Tachwedd, 09:30–11:00: sesiwn Gymraeg**

Treuliwch 90 munud gyda ni a gadewch gan wybod yn union ble i ddechrau. Ar agor i bob aelod o staff a gwirfoddolwr.

Cofrestrwch nawr ar Eventbrite drwy dilyn y dolen hon:
https://www.eventbrite.co.uk/e/cyw-gwneud-y-gorau-och-casgliadau-yn-yr-amser-sydd-gennych-tickets-2002997973859?aff=oddtdtcreator

Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales